

Adroddiad ar

Gylch Meithrin Y Felinheli

**Caban clud
Buarth Ysgol Y Felinheli
Y Felinheli
Caernarfon
LL56 4TZ**

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant
yng Nghymru**

Ynglŷn â Chylch Meithrin Y Felinheli

Enw'r lleoliad	Cylch Meithrin Y Felinheli
Categori'r gofal a ddarperir	Gofal Dydd Llawn
Person(au) cofrestredig	
Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol)	Samantha Roberts.
Person â gofal	Samantha Roberts, Emma Williams.
Nifer y lleoedd	19
Ystod oedran y plant	2 - 4 mlwydd oed
Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed	21
Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar	8
Diwrnodau / amseroedd agor	Dydd Llun i Ddydd Gwener 10.45 – 15.30
Gwasanaeth Dechrau'n Deg	Nac oes
Iaith y lleoliad	Cymraeg
A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn?	Ydy
Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol	Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.
Dyddiad arolygiad blaenorol AGC	Arolygiad cyntaf ar ôl cofrestru.
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn	25/02/2020
Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn	23/06/2026
Gwybodaeth ychwanegol	

Crynodeb

Thema	Barn
Lles	Rhagorol
Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)	
Gofal a datblygiad	Rhagorol
Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)	Rhagorol
Yr amgylchedd	Rhagorol
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Diffyg cydymffurfio

Hysbyswyd y darparwr nad yw'r lleoliad yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Ni chyflwynwyd hysbysiad, ond mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel meysydd i'w gwella, a dylai'r PC/UC roi sylw iddynt.

Argymhellion

- A1 Sicrhau bod ffurflenni cofnodi damweiniau yn bodloni'r safonau gofynnol
- A2 Mynd i'r afael â'r meysydd diffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad.
- A3 Sicrhau bod pob ymarferydd yn derbyn sesiynau goruchwyllo rheolaidd.

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar eu gwaith mewn perthynas â'r modd mae llais y plentyn yn dylanwadu ar fywyd dyddiol y cylch, i'w lledaenu ar eu gwefannau.

Prif ganfyddiadau

Lles: Rhagorol

Mae bron bob un o'r plant yn gwneud dewisiadau pwrpasol ynghylch eu chwarae a'u dysgu. Maent yn defnyddio'r amrywiaeth eang o weithgareddau ac adnoddau diddorol sydd ar gael i greu cyfleoedd chwarae a datblygu eu syniadau. Mae ganddynt lais cryf sy'n cael effaith uniongyrchol ar y profiadau maent yn eu mwynhau yn y lleoliad. Er enghraifft, maent yn cael cyfle i greu rhestr o'u hoff ganeuon i'w canu wrth chwarae. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau aeddfed am yr hyn sy'n effeithio arnynt. Er enghraifft, maent yn dewis chwarae y tu mewn neu'r tu allan, gyda llif rhydd yn cael ei hyrwyddo bob amser. Mae bron bob un yn mwynhau eu chwarae ac yn gwneud hynny'n llawn cyffro. Mae llawer o blant yn mwynhau presenoldeb ymwelwyr, gan eu holi'n fyrlymus am eu henwau a'u gwahodd i chwarae.

Mae bron bob plentyn yn setlo'n gyflym ac yn mynd ati i chwarae'n hapus, yn egniol a chyffrous. Maent yn ymdopi'n dda iawn ac yn teimlo'n ddiogel a chartrefol. Mae plant yn gyfarwydd â threfn y dydd, sy'n eu helpu i ymgartrefu'n gyflym ac i deimlo'n ddiogel. Mae bron bob plentyn yn datblygu perthynas agos a chynnes ag ymarferwyr ac yn ymateb yn eiddgar wrth iddynt ymuno yn eu chwarae. Mae barn a dewisiadau'r plant yn cael eu blaenoriaethu gan ymarferwyr, gyda'u hanghenion unigol yn cael eu hystyried a'u diwallu'n barhaus.

Mae plant o bob oed yn rhyngweithio'n effeithiol â'i gilydd a gydag ymarferwyr. O ganlyniad, maent yn gofalu am ei gilydd ac yn ffurfio perthnasoedd agos. Mae bron bob plentyn yn dangos caredigrwydd arbennig tuag at ei gilydd. Maent yn barod i gefnogi ei gilydd, er enghraifft trwy gydweithio yn yr ardal balu, ac wrth gynnig dŵr yn y tywydd poeth. Maent yn sgwrsio'n hapus wrth chwarae ac yn awyddus i rannu profiadau gyda'u ffrindiau ac ymarferwyr, gan alw arnynt yn frwdfrydig i ddangos a rhannu eu llwyddiannau.

Mae'r plant yn ddysgwyr chwilfrydig sy'n elwa'n fawr o'r profiadau helaeth a chyffrous i fwynhau eu chwarae. Mae bron bob plentyn yn dangos lefel uchel o ddyfalbarhad wrth chwarae, yn enwedig pan fyddant yn dilyn eu syniadau eu hunain ac yn arbrofi ag adnoddau. Maent yn cymryd rhan yn weithredol mewn cyfleoedd dysgu cyffrous sy'n eu galluogi i ddysgu, archwilio a darganfod yn llwyddiannus iawn. Er enghraifft, maent yn arbrofi gyda ffynnon ddŵr solar i weld beth fydd yr effaith. Mae bron bob un o'r plant yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus gyda'i gilydd wrth chwarae ac yn canu caneuon cyfarwydd yn frwdfrydig gydag ymarferwyr.

Mae bron bob un o'r plant yn datblygu medrau annibynnol yn hynod llwyddiannus ar draws bob agwedd o'r ddarpariaeth. Maent yn gwneud penderfyniadau pwrpasol ynghylch eu chwarae ac yn cyflawni tasgau ymarferol yn hyderus. Er enghraifft, maent yn torri

ffrwythau ar gyfer eu byrbryd yn fedrus. Mae bron bob un yn ailgylchu bwyd yn effeithiol a golchi a sychu eu platiau a chwpanau.

Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

Gofal a datblygiad: Rhagorol

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth ardderchog o'u rolau a'u cyfrifoldebau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac i gadw plant yn ddiogel. Maent yn rhoi'r polisïau ar waith yn hynod effeithiol. Maent yn rhoi sylw arbennig i bob agwedd ar hylendid ac yn annog plant i fwyta ac yfed yn iach a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. Maent yn sicrhau y caiff unrhyw alergeddau ac anghenion dietegol eu diwallu er mwyn sicrhau y gall bob un plentyn fwynhau eu prydau bwyd yn ddiogel.

Mae gan ymarferwyr wybodaeth gadarn am brosesau amddiffyn plant ac maent yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Maent yn cwblhau cofnodion perthnasol ar gyfer damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau blaenorol. Mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd dyddiol i blant dreulio amser yn yr awyr agored, beth bynnag fo'r tywydd. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn effeithiol, gan gynnwys darparu diodydd iach, ac yn sicrhau bod dŵr ar gael ar bob adeg. Mae arweinwyr yn cadw cofnod cywir o bresenoldeb ymarferwyr a phlant ac ymwelwyr. Maent yn goruchwyllo plant yn llwyddiannus iawn ac yn cynnal ymarferion tân effeithiol, sydd oll yn cyfrannu at greu darpariaeth ddiogel ar gyfer y plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r holl ymarferwyr yn ffurfio perthnasoedd hynod gadarnhaol â'r plant. Maent yn amyneddgar, yn siarad gyda'r plant yn dyner ac yn eu trin gyda gofal a pharch. Maent yn fedrus wrth ryngweithio â phlant ac yn deall pryd i ymyrryd a phryd i ganiatáu iddynt ddatblygu eu medrau'n annibynnol. Mae ymarferwyr yn meithrin perthnasoedd hyfryd â'r plant ac yn ymlacio'n addfwyn yn eu cwmni. Mae'r holl ymarferwyr yn modelu medrau cymdeithasol yn effeithiol iawn wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant. Maent yn defnyddio strategaethau effeithiol a chysn i hybu ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Maent yn canmol y plant yn gyson gan ddathlu eu llwyddiannau'n frwdfrydig.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth ardderchog o ddatblygiad, anghenion a dymuniadau unigol y plant. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol, ac mae ganddynt berthynas effeithiol ag amrediad o asiantaethau allanol a'r rhieni. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth i gefnogi'r plant o safon uchel. Mae ymarferwyr yn darparu

cyfleoedd dysgu cyffrous ar gyfer y plant. Er enghraifft, wrth chwarae gyda'r beipen ddŵr, maent yn annog y plant i ddatblygu eu medrau meddwl a datrys problemau. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n fedrus er mwyn annog medrau cydweithio'r plant. Maent yn gwybod yn reddfod pryd i gamu'n ôl a rhoi cyfle i'r plant ddarganfod pethau drostynt eu hunain. Mae hyn yn cefnogi dysgu'r plant yn arbennig o effeithiol.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth gyffrous o weithgareddau a phrofiadau perthnasol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu medrau'r plant. Maent yn talu sylw arbennig i ddiddordebau'r plant ac yn trefnu profiadau cyfoethog. Er enghraifft, maent yn ystyried hoff deganau, offer a diddordebau'r plant wrth gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu. Maent yn deall pwysigrwydd caniatáu i blant barhau i chwarae am gyfnodau estynedig pan fydd rhywbeth o ddiddordeb arbennig iddynt neu pan fyddant wedi ymgolli'n llwyr yn eu chwarae.

Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth drylwyr iawn o ddatblygiad plant. Maent yn gweithredu'n ymatebol ac yn greadigol iawn wrth ymateb i ddiddordebau a dyheadau'r plant. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn llwyddiannus i gynllunio gweithgareddau sy'n seiliedig ar syniadau'r plant a thrwy hyn yn datblygu eu medrau'n llwyddiannus. O ganlyniad, mae bron bob plentyn yn gwneud cynnydd cryf iawn o'u mannau cychwyn.

Mae ymarferwyr yn darparu amgylchedd cyfeillgar a chreadigol sy'n cynnig ystod o brofiadau arbennig i'r plant ar draws yr holl ddarpariaeth. Maent yn ennyn diddordeb y plant ac yn denu eu sylw at y byd o'u cwmpas yn llwyddiannus. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r plant ac maent yn eu hadnabod yn arbennig o dda. Maent yn hybu medrau annibynnol y plant yn fedrus.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd cynnar. Ceir amrediad o lyfrau stori yn y gwahanol ardaloedd a geirfa o amgylch y gwahanol weithgareddau. Mae ymarferwyr yn fodelau rôl ieithyddol arbennig o dda. Maent yn darparu cyfleoedd cyfoethog i blant glywed geirfa a phatrymau safonol y Gymraeg trwy siarad a chanu. O ganlyniad, mae bron bob un o'r plant yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau llafar o oedran cynnar. Mae ystod o brofiadau dysgu a chwarae tu fewn a thu allan yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y plant. Mae ymarferwyr yn chwarae ochr yn ochr â'r plant yn effeithiol er mwyn cefnogi'r dysgu'n llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn sgwrsio ar y radio symudol wrth chwarae cuddio er mwyn annog y plant i'w hefelychu.

Mae ymarferwyr yn trefnu profiadau cyffrous ar gyfer datblygu medrau creadigol y plant. Er enghraifft, maent wedi creu llwyfan ar gyfer y plant i berfformio a chanu. Maent yn darparu cyfleoedd ardderchog i blant ddysgu ac ymddiddori yn eu cynefin er mwyn

atgyfnerthu ymdeimlad o berthyn. Er enghraifft, maent yn ymweld â'r parc lleol er mwyn i'r plant gael dawnsio yn y dail.

Mae ymarferwyr yn annog plant i ddatblygu medrau rhifedd cryf drwy amrywiaeth o gyfleoedd pwrpasol, megis cyfrif sawl cragen sydd yn y tywod, neu gyfri i bump wrth ganu am y crocodeil. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo medrau datrys problemau a chyfathrebu'r plant yn arbennig o effeithiol drwy eu hannog i balu yn yr ardd i chwilio am drychfilod a defnyddio rhaffau tu allan i glymu'r cwch hwyllo i'r ffens.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn llwyddiannus. Maent yn datblygu gweithgareddau sy'n annog y plant i ddatblygu eu chwilfrydedd a chanolbwytio ar ryfeddodau'r byd o'u cwmpas. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i'r plant ddysgu am natur wrth blannu blodau neu wrth ddefnyddio ysbieन्द्रych i chwilio am adar yn y coed.

Mae ymarferwyr yn asesu cynnydd y plant yn drwyadl ac yn ychwanegu adnoddau'n gelfydd er mwyn eu herio i ddatblygu eu gwahanol fedrau ymhellach. Maent yn annog y plant i ddyfalbarhau ar dasgau trwy holi cwestiynau pen agored i hyrwyddo'r chwarae. O ganlyniad, mae'r plant yn ymgolli'n llwyr yn eu gweithgareddau.

Mae ymarferwyr yn casglu gwybodaeth gan rieni am eu plant cyn iddynt gychwyn yn y lleoliad. Mae gan bob plentyn weithiwr allweddol sy'n cadw golwg fanwl ar eu datblygiad ac yn adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Maent yn adolygu datblygiad y plant yn rheolaidd ac yn trin a thrafod eu cynnydd ymysg ei gilydd yn wythnosol. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn adnabod anghenion a diddordebau'r plant yn drylwyr iawn. Maent yn darparu gwybodaeth gyson i'r rhieni am yr hyn mae'r plant yn ei gyflawni yn ystod y dydd.

Yr amgylchedd: Rhagorol

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân a chroesawgar, ac mewn cyflwr arbennig o dda. Mae arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar waith. Mae asesiadau risg cynhwysfawr yn amlinellu unrhyw risgiau posibl ac mae ymarferwyr yn eu rheoli'n effeithiol. Mae ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau dyddiol trylwyr, ac yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi yn amserol. Mae arweinwyr yn gweithredu trefniadau trwyadl i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da iawn yn fewnol ac yn allanol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cofnodion cynnal a chadw'r adeilad yn gyfredol. Maent yn darparu byrddau gwybodaeth sy'n cynnwys amrediad buddiol o wybodaeth berthnasol. Maent yn sicrhau bod dogfennau sy'n ymwneud â gwiriadau diogelwch yr adeilad, fel gwiriadau tân a thrydan, yn gyfredol.

Mae ystod eang o ddodrefn ac adnoddau o ansawdd neilltuol ar gael ar draws y ddarpariaeth ac maent yn hygyrch i blant o bob oed. Mae rheolwyr ac ymarferwyr yn trefnu'r amgylchedd yn fwriadus, gan gynnig ystod eang o adnoddau pwrpasol ac ysgogol

sy'n darparu profiadau dysgu cyfoethog i blant. Mae arweinwyr yn darparu ardaloedd i blant storio eu heitemau personol. Maent yn arddangos gwaith celf y plant yn ddeniadol ar draws y lleoliad. Mae ffotograffau o blant, eu gweithgareddau ac ymweliadau yn cefnogi ymdeimlad o berthyn ac yn hyrwyddo hunan-barch plant yn llwyddiannus dros ben. Mae'r ystafelloedd chwarae yn groesawgar ac yn gartrefol. Mae digon o le i'r plant symud o gwmpas yn hwylus a chwarae, yn ogystal ag ardaloedd iddynt ddod at ei gilydd yn gyfforddus fel grŵp.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn sicrhau bod yr holl adnoddau ac ardaloedd yn lân ac yn cael eu cynnal a chadw'n dda. Mae arweinwyr wedi datblygu'r ardaloedd chwarae tu allan i gynnig amrywiaeth arbennig o weithgareddau a chyfleodd penigamp i blant chwarae ac ymchwilio i'r byd o'u cwmpas.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain a'r tîm. Maent yn rhannu eu gweledigaeth yn glir gyda'r holl randdeiliaid. Maent wedi llwyddo i greu awyrgylch Gymreig sy'n ofalgar a chartrefol, lle mae ymarferwyr a phlant yn cael eu parchu. Maent wedi adeiladu tîm sy'n cydweithio'n effeithiol er mwyn cynnig cyfleoedd o safon uchel i'r plant.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau priodol i arfarnu gwaith y lleoliad a nodi'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Maent yn barod iawn i gydweithio a derbyn cyngor gan asiantaethau allanol drwy ymweliadau cefnogi rheolaidd ac wrth fynychu hyfforddiant, er mwyn gwella'r ddarpariaeth ac ansawdd y lleoliad. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o holl amgylchedd y lleoliad gan ystyried anghenion unigol bob plentyn yn greadigol a medrus.

Mae gan arweinwyr ystod dda o bolisiau a gweithdrefnau i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n llyfn o ddydd i ddydd. Maent yn cyflawni'r rhan fwyaf o ddyletswyddau rheoliadol yn briodol. Er hyn, nid yw arweinwyr wedi cwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth diweddaraf. Mae arweinwyr wedi sicrhau bod ganddynt ffurflenni pwrpasol i gofnodi gwybodaeth berthnasol o ddydd i ddydd. Yn ogystal, maent yn cofnodi manylion am anghenion iechedd plant unigol, gan gynnwys gwybodaeth am unrhyw feddyginiaethau. Fodd bynnag, nid ydynt wedi sicrhau bod modd i rieni lofnodi'r cofnod damweiniau.

Mae arweinwyr yn gweithredu prosesau recriwtio da cyn i ymarferwyr ddechrau yn eu swydd. Mae arweinwyr yn trefnu'r ymarferwyr yn effeithiol gan sicrhau eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn. Mae arweinwyr yn cynnal arfarniadau blynyddol gyda'r ymarferwyr ac yn cynnal sesiynau goruchwyllo o bryd i'w gilydd, gan ddarparu cefnogaeth a chyfle i drafod unrhyw faterion sy'n codi. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn sicrhau bod y sesiynau goruchwyllo ffurfiol yn cael eu cynnal yn ddigon cyson.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd doeth o'r gyllideb a grantiau i gefnogi blaenoriaethau gwella a diwallu anghenion plant. Er enghraifft, trwy gyllido gwelliannau yn yr ardal allanol, darparwyd adnoddau deniadol o ansawdd da sy'n cefnogi dysgu'r plant ac yn cyfoethogi eu profiadau'n llwyddiannus.

Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr berthynas gref â rhieni a gofalwyr. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol â nhw er lles a datblygiad y plant. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn modd effeithiol i hysbysu rhieni a gofalwyr o ddigwyddiadau a datblygiadau perthnasol. Mae hyn yn sicrhau bod rhieni'n cael gwybodaeth gyfredol am y profiadau cyfoethog mae'r plant yn eu mwynhau yn y lleoliad. Maent hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni am gynnydd a lles eu plant.

Mae arweinwyr yn cynnal cysylltiadau cryf â'r ysgol leol ac yn rhannu'r caban am ychydig oriau bob bore. Mae trefniadau cadarn er mwyn hwyluso'r broses drosglwyddo wrth i'r plant symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd buddiol o adnoddau'r ysgol i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y gymuned yn rhan allweddol o chwarae a dysgu plant. Er enghraifft, maent yn trefnu ymweliadau rheolaidd i wahanol leoliadau o fewn y gymuned leol. Mae hyn yn atgyfnerthu'r berthynas rhwng y ddarpariaeth a thrigolion lleol ac yn hyrwyddo ymdeimlad y plant o berthyn.

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn
(<http://careinspectorate.wales>) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau
Gwael	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/08/2026